

Blwch Negeseuon E-bost Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llawr 1<sup>af</sup>  
Adain y Gorllewin  
Parc Cathays 2  
Caerdydd CF10 3NQ

17 Ebrill 2014

Annwyl Syr/Madam,

## **CYRRAEDD SAFONAU UCHEL GYDA'N GILYDD - FFRAMWAITH NEWYDD AR GYFER IECHYD A LLES ANIFEILIAID YNG NGHYMURU**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gwaith o ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru a'r canlyniadau strategol drafft.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Ein diben yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Nid yw cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnwys iechyd a lles anifeiliaid yn benodol, ond mae inni fuddiant mewn rhai meysydd gwaith lle gall fod effaith ar yr amgylchedd neu fywyd gwyllt. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys rheoli TB buchol mewn bywyd gwyllt megis moch daear a cheirw a mesurau rheoli diadelloedd effeithiol i reoli ectoparasitiaid gan leihau'r angen i waredu trochdrwyth defaid wedi'i ddisbyddu.


O gofio ein cylch gwaith fel y'i disgrifir uchod, ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymateb yn fanwl i'r fframwaith newydd arfaethedig a'r canlyniadau strategol drafft. Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod yn rhaid i'r canlyniadau strategol gynnwys materion ehangach fel yr amgylchedd a chynnwys y canlyniad strategol anuniongyrchol i Gymru fod ag 'amgylchedd o safon uchel'. Fodd bynnag, dylid nodi y gall fod effeithiau uniongyrchol, yn ogystal â rhai anuniongyrchol, ar yr amgylchedd o'r ffordd y rheolir iechyd a lles anifeiliaid.

Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith y parheir i gynnwys yr egwyddor allweddol fod atal yn well na gwella, gan y gall buddion iechyd a lles anifeiliaid helpu i leihau effaith achosion o glefydau anifeiliaid ar yr amgylchedd.

Yn yr un modd, rydym yn barnu ei bod yn briodol bod bywyd gwyllt wedi cael ei gynnwys nid yn unig yn nhermau ei botensial o ran lledu clefydau ond hefyd lle bo gweithredoedd yn effeithio ar iechyd a lles y bywyd gwyllt ei hun.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n perthynas weithio gyda Llywodraeth Cymru a staff Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein hymateb neu os oes arnoch angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â Liz Halliwell ar [Liz.Halliwell@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:Liz.Halliwell@naturalresourceswales.gov.uk) neu ar 01248 387256.

Yn gywir,



Ceri Davies  
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning  
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio  
[Cyfoeth Naturiol Cymru](http://www.naturalresourceswales.gov.uk) / Natural Resources Wales